# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**cartref gofal Ely Court**

**Cartref Gofal Ely Court**
**Michaelston Road  Sain Ffagan**
**Caerdydd**
**CF5 6XD**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref gofal Ely Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Ely Court Care ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw] 26 Medi 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae Ely Court yn darparu gofal a chymorth rhagorol i bobl, y mae gan rai ohonynt anghenion iechyd cymhleth. Mae pobl a'u teuluoedd yn canmol y gwasanaeth gan wneud sylwadau megis, "*They go the extra mile,*" "*The care home is exceptional and outstanding in every aspect*," ac, "*I truly believe that Ely Court offers the highest standard of care for health and wellbeing to its residents."* Mae gwaith dogfennu a chofnodi mewn perthynas â gofal pobl wedi gwella. Ymgynghorir â gweithwyr iechyd proffesiynol a dilynir cyngor. Mae cydberthnasau gwaith gwych â'r meddyg teulu lleol. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn, eu bod yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod ac y gallant wneud y pethau y maent am eu gwneud.

Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn olau ac yn groesawgar gyda gwaith adnewyddu a décor o safon uchel. Mae glendid a mesurau atal heintiau yn gyson dda iawn, gyda theuluoedd yn dweud wrthym ei fod bob amser yn "*spotlessly clean*." Mae'r darparwr yn buddsoddi yn y gwaith o gynnal a chadw, profi a gwasanaethu'r adeilad a'r cyfarpar. Mae gerddi dymunol yn cynnig ardal awyr agored sy'n hygyrch.

Mae unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn gwrando ar bobl er mwyn llywio cyfeiriad y gwasanaeth a'r gwelliannau sydd eu hangen. Mae'r rheolwr penodedig yn darparu arweinyddiaeth gref, y mae'r staff a'r bobl yn ei chydnabod a'i gwerthfawrogi. Dilynir prosesau recriwtio diogel. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant addas ac maent yn meddu ar gymwysterau addas ar gyfer eu rôl ac mae'r lefelau staffio yn dda iawn. Mae gwaith rheoli a chymorth rhagorol gan y sefydliad ehangach yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r canlyniadau gorau posibl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn deall pa ofal a chymorth sydd ar gael iddynt a gallant gael y cymorth i sicrhau eu llesiant. Mae'r wybodaeth sydd ar gael am y gwasanaeth yn helpu'r bobl i wneud dewisiadau ac mae ymgynghori yn cefnogi cynllun gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae annibyniaeth yn cael ei hyrwyddo, gydag un perthynas yn dweud wrthym, "*They support Mum with all the care she needs but the staff encourage her to help herself, but assist her when needed, helping to maintain her independence*." Mae'r bobl neu eu cynrychiolwyr yn cymryd rhan yn broses o adolygu'r cynlluniau person ac ymgynghorir â nhw ynghylch gofal parhaus. Mae'r bobl yn cael cyfle i siarad am eu 'cynllun gofal uwch,' a chofnodir eu dymuniadau, yn enwedig mewn perthynas â gofal diwedd oes. Mae tîm profiadol o staff yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl a'u hanwyliaid, gan gynnwys aelodau o'r teulu sy'n byw dramor. Caiff pobl ag anghenion corfforol ac anghenion iechyd meddwl cymhleth eu cefnogi'n briodol ac mae arbenigwyr proffesiynol allanol yn rhan o'r broses o ofalu am lawer ohonynt. Canolbwyntir ar sicrhau bod y bobl yn parhau i wneud yr hyn y maent am ei wneud, o gael y cymorth cywir. Cynigir gweithgareddau a gall y bobl ddewis cymryd rhan.

Mae'r gwasanaethau yn gofalu bod y bobl yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Cynhelir gwiriadau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed ac yn gymwys i weithio o fewn eu rôl. Ceir lefelau staffio da. Mae hyfforddiant, gan gynnwys 'Diogelu' ac 'Iechyd a Diogelwch' yn sicrhau bod y staff yn gwybod sut i gadw pobl yn ddiogel. Mae rhaglen gadarn i fonitro, cynnal a phrofi'r amgylchedd. Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae mesurau rhagofalus ar waith i gadarnhau pwy yw ymwelwyr. Mae'r gwasanaeth yn agored ac yn dryloyw ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau a rheoleiddwyr am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal a mesurau sydd ar waith i liniaru risgiau. Mae'r rheolwr a'r tîm clinigol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda er mwyn monitro dangosyddion iechyd, gan sicrhau y caiff mesurau ataliol eu mabwysiadu. Mae cydberthynas waith gadarnhaol â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y meddyg teulu, yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn dda. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn hyderus bod y bobl yn ddiogel gan ddweud wrthym, "*My relative is safe and content*."

Mae gan y bobl ymdeimlad o berthyn. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu caru. Mae'r staff yn darparu gofal a chymorth gyda chynhesrwydd gan roi gwên ar wynebau pobl. Mae'r diwylliant yn un cynhwysol, a theimlir hyn gan y bobl, y staff ac ymwelwyr. Dywedodd teuluoedd a ffrindiau, "*We are welcomed as part of the family*," a "*Staff are unfailingly friendly*." Mae'r amgylchedd yn gartrefol a gall y bobl gael gafael ar eitemau sy'n bwysig iddynt. Mae cyfeiriadau diwylliannol Cymreig i'w gweld ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus yn eu cartref eu hunain, byddant yn cynnig diod i

ymwelwyr a herio ‘pobl ddieithr’ er mwyn cael gwybod beth maent yn ei wneud yn yr adeilad. Mae'r cartref yn rhan o'r gymuned ehangach â chysylltiadau da ag eglwysi lleol. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr lle y gall pobl ddod ynghyd fel grŵp a thrafod y pethau sy'n effeithio arnynt yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl ac mae'n parchu'r ffaith mai cartref yr unigolyn ydyw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwrando er mwyn cefnogi gwelliannau.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i nodi eu canlyniadau delfrydol a chânt gymorth i'w cyflawni os bydd yn bosibl Ymgynghorir â'r bobl cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref ynghylch y gofal sydd ei angen arnynt a sut maent am ei gael, gan gynnwys yn y Gymraeg. Mae gwelliannau wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod cynllun personol cychwynnol ar gael cyn i'r unigolyn gael ei dderbyn i'r cartref a chaiff y cynllun hwn ei adolygu'n rheolaidd. Mae gwelliannau hefyd wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod hanes cymdeithasol yr unigolyn yn cael ei gofnodi. Defnyddir yr holl wybodaeth i ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n dangos bod y gwasanaeth yn meddwl y tu allan i ffiniau'r model meddygol traddodiadol er mwyn canolbwyntio ar anghenion personol. Dywedodd un perthynas wrthym, "*Planning and attention to detail is outstanding*." Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar gymryd risgiau cadarnhaol, gan alluogi'r bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Caiff cysylltiadau eu creu â'r gymuned, gan gynnwys eglwysi. Mae cydgysylltydd gweithgareddau yn cael ei chanmol am ei gwaith caled i gynnal rhaglen ysbrydoledig barhaus o ddigwyddiadau, ond nododd rhai pobl neu eu cynrychiolwyr y byddai'n braf gweld gweithgareddau yn cael eu cynnig yn gyson ar y penwythnos, yn ogystal ag ystod yr wythnos. Mae trefniadau eisoes ar waith i gyflwyno rhagor o gydgysylltwyr gweithgareddau. Caiff teuluoedd a ffrindiau gymorth i ymweld, cânt groeso yn y cartref ac maent yn cyfrannu at y canlyniadau cadarnhaol y mae'r bobl yn eu cael.

Mae'r bobl yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill. Mae tîm profiadol cyson o nyrsys, nyrsys cynorthwyol a staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwybod beth yw eu hanghenion, gan helpu i fonitro a nodi unrhyw newidiadau a chymryd camau ar unwaith i gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol pan fo angen. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol eu cynnwys yng ngofal y bobl megis nyrsys hyfywedd meinwe a dietegwyr. Cynhelir archwiliadau iechyd rheolaidd a darperir gwasanaethau, megis gwasanaeth ciropodydd. Mae pobl yn cael cymorth gyda phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys dementia. Gwneir gwaith monitro clinigol. Mae'r meddyg teulu lleol yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth, gan ddod i'r cartref yn aml y tu allan i oriau er mwyn ymdrin â phroblemau iechyd pobl. Mae cyfarpar pwrpasol ar gael i'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn darparu cyfarpar o ansawdd uchel megis gwelyau proffilio ac mae'n cymryd rhan mewn mentrau i ddatblygu synwyryddion ymhellach, a ddefnyddir i helpu i dracio symudiadau, gan sicrhau gofal croen da. Caiff meddyginiaeth ei hadolygu'n rheolaidd gyda gweithiwr iechyd proffesiynol ac fe'i rhoddir yn ddiogel.

Darperir gofal a chymorth ag urddas a pharch. Mae'r staff gofal bob amser yn gyfeillgar, yn ofalgar ac yn broffesiynol. Dywedodd un aelod o deulu wrthym fod ei berthynas yn teimlo ei fod yn cael ei garu a dywedodd eraill wrthym fod staff yn "*go the extra mile*," yn annog annibyniaeth ac yn helpu pobl ag anghenion cymhleth cyfnewidiol. Gwelsom arferion da

cyson lle mae'r bobl yn cael cynnig dewisiadau o ran sut maent yn byw o ddydd i ddydd, gan gynnwys dewis rhyw y gweithiwr gofal i roi gofal personol iddynt. Ceir rhyngweithio arbennig o gynnwys sy'n rhoi hyder i'r bobl, gan leihau eu pryderon a hyrwyddo cymdeithasu. Pan fydd yn anodd i bobl wneud penderfyniadau, cânt y cymorth cywir i gael darpariaeth eirioli, yn aml drwy'r teulu.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol. Mae swyddog iechyd a diogelwch ar gyfer y sefydliad yn asesu'r amgylchedd ac yn cadarnhau ei fod yn cael ei gynnal yn ddiogel ac yn briodol. Mae tîm o staff cynnal a chadw ar y safle yn gwneud gwaith cynnal a chadw a phrofi rheolaidd yn yr adeilad, gyda chymorth contractwyr allanol pan fo angen, megis y Gwasanaeth Tân sy'n ymweld â'r cartref ac yn profi cydymffurfiaeth. Mae asesiad risg ar waith i liniaru unrhyw effaith a nodir gan y Gwasanaeth Tân, o ystyried y cyfyngiadau sydd ar ddatblygu rhai ardaloedd am fod yr adeilad yn rhestredig Gradd I, sy'n golygu bod angen cael caniatadau ar gyfer unrhyw addasiadau. Mae rhai prosiectau datblygu, megis gwneud drws i'r ardd yn lletach, yn aros am y fath ganiatadau. Mae Asiantaeth Iechyd yr Amgylchedd wedi rhoi'r sgôr uchaf i'r cartref ar gyfer rheoli bwyd a chegin, sef lefel 5. Caiff gwasanaethau, gan gynnwys nwy a thrydan, eu gwasanaethu a'u profi'n briodol, yn ogystal â lifftiau a chyfarpar arall. Caiff mynediad i'r adeilad ei fonitro a'i ddiogelu gan ddefnyddio system cod allweddol.

Mae'r cyfleusterau, y cyfarpar ac amgylchedd y bobl yn diwallu eu hanghenion. Caiff yr amgylchedd ei gyflwyno'n arbennig o dda, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i fanylion, a chaiff nodweddion hŷn yr adeilad eu dathlu, yn arbennig ar adeg y Nadolig gyda garlantau o lesni yn gwneud yr amgylchedd yn fwy deniadol byth. Caiff y cartref ei lanhau i safon uchel ac mae'r bobl yn dweud wrthym, "*Cleanliness is superb.*" Mae rhaglen barhaus yn sicrhau bod pob ardal gymunol yn cael ei addurno'n rheolaidd a bod marciau, yn arbennig y rhai a wneir gan gyfarpar, yn cael eu glanhau ar unwaith. Mae gwaith celf o amgylch y cartref yn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn gyda'u golygfeydd Cymreig. Caiff ystafelloedd gwely eu haddurno'n chwaethus a'u personoli ag eiddo'r bobl. Mae'r cyfarpar i gyd o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da, gan gynnwys cyfarpar arbenigol megis matresi wedi'u llenwi ag aer er mwyn helpu i atal briwiau pwyso ar y croen. Gwelsom amgylcheddau ystafelloedd ymolchi cynnes a chroesawgar a oedd yn cael eu defnyddio'n dda a chyfleusterau 'en-suite' sy'n cynnig preifatrwydd i bobl sy'n fwy abl i reoli elfennau o'u gofal personol eu hunain, gan hyrwyddo annibyniaeth. Gall y bobl symud yn rhydd o gwmpas y cartref os gallant wneud hynny, gyda chymorth lifft teithwyr os oes angen. Mae'r gerddi yn fawr ac yn hygyrch ac fe'u defnyddir gan lawer o bobl, yn arbennig pan gynhelir digwyddiadau yn ystod y misoedd cynnes. Mae bws mini, a rennir â chartref gofal arall, yn cynnig cyfleoedd i'r bobl fynd ar deithiau achlysurol os gallant wneud hynny ond nododd rhai teuluoedd yr hoffent weld teithiau o'r fath yn cael eu trefnu'n amlach. Mae hyn yn cael ei ystyried gan yr Unigolyn Cyfrifol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu'r bobl i gyflawni eu canlyniadau a nodwyd. Mae unigolyn cyfrifol yn un o gyfarwyddwyr y sefydliad ac mae'n cyflawni ei rôl â diwydrwydd dyladwy. Mae wedi gwella'r ffordd y mae'n casglu ac yn dilysu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'n dadansoddi'r wybodaeth sy'n cefnogi'r rheolwr a'r tîm sefydliadol ehangach, gan gynnwys arweinwyr clinigol a'r arbenigwr diogelwch, er mwyn ysgogi gwelliant. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn amlwg iawn yn y gwasanaeth, mae'r bobl a'r staff yn ei adnabod ac mae'n cynnig ei amser yn barhaus er mwyn cael adborth. Mae'n gwrando ar awgrymiadau a, lle y bo'n bosibl, yn cymryd camau i wneud gwelliannau, ond bydd yn esbonio'r rhesymau os na ellir gwneud hynny. Caiff yr adroddiadau gofynnol eu llunio. Mae polisïau, gweithdrefnau a dogfennau megis y 'datganiad o ddiben' ar gael a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn system electronig sy'n cefnogi gwaith gwych i rannu gwybodaeth a goruchwylio'r gwasanaeth. Gellir cael mynediad i'r system hon unrhyw le sy'n golygu bod gan yr Unigolyn Cyfrifol a rheolwyr allweddol eraill wybodaeth gyfredol er mwyn eu helpu i'w hysbysu am ansawdd y gofal a'r gwasanaeth sy'n cael eu darparu.

Caiff y gwasanaeth ei redeg yn hwylus. Mae systemau ar waith i archwilio pob agwedd ar y gwasanaeth a sichrau bod tasgau gofynnol yn cael eu cwblhau. Mae rheolwr gwybodus a phrofiadol yn arwain tîm sy'n cefnogi ei gilydd. Mae'r rheolwr yn cael ei barchu gan y staff, y bobl a'u ffrindiau a'u perthnasau. Cawsom ymateb gwych gan y bobl a'u teuluoedd a ddywedodd wrthym, "*Leadership from the manager is excellent*," a "*The manager is dynamic, charismatic and runs a tight ship*." Mae nyrsys, nyrsys cynorthwyol a gweithwyr gofal profiadol yn darparu gofal a chymorth c mae tîm cymoth hynod ymroddedig o gogyddion, gweinyddwyr, staff cadw tŷ a staff cynnal a chadw sy'n sicrhau safonau uchel ym mhob maes. Cyfeiriodd llawer o staff at y diwylliant cefnogol yn y sefydliad. Ceir cyfathrebu da.

Dilynir prosesau recriwtio ac mae'r staff yn cael cymorth i ddysgu a datblygu. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r holl ddogfennau gofynnol ar gael ar gyfer pob cyflogai, gan gynnwys manylion nyrsys a gweithwyr gofal ynglŷn â chofrestru â'u rheoleiddiwr gweithlu. Ni chaiff staff asiantaeth eu defnyddio ar hyn o bryd ond mae gwiriadau ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Mae darpariaeth sefydlu a hyfforddiant ar gael gan gynnwys sut i gadw pobl yn ddiogel. Darperir hyfforddiant ymarferol a chynhelir gwiriadau cymhwysedd lle y bo angen. Caiff staff gymorth i ennill cymhwyster cydnabyddedig, gan gynnwys cymhwyster nyrsio, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd â'u rheolwr llinell ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl, sy'n hyrwyddo sefydlogrwydd ymhlith y staff a pharhad gofal. Pan ofynnwyd

iddynt beth roeddent yn ei hoffi am eu rôl, ymatebodd y staff yn gadarnhaol, gan un yn nodi, “*My job is rewarding – I like that I make a difference*.”

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol bob amser yn cadarnhau bod gwybodaeth a roddwyd iddo am statws y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn gywir. | Cyflawnwyd |
| 15 | Ni chaiff cynlluniau personol eu llunio cyn i unigolyn ddod yn breswylydd ac nid oes cynlluniau bob amser ar waith ar gyfer pob unigolyn ar ôl iddo ddod yn breswylydd. Nid yw'r cynlluniau gofal yn ddigon manwl o ran sut y gellir helpu'r unigolyn gyda'i anghenion o ddydd i ddydd. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/01/2024